Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD**

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl318

**Amseru:** Rheolaidd

**Teitl: Parhad Peilot Eiriolwr Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol Brake**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Yn unol â chofnodion penderfyniad DLl269 a DLl300, cymeradwyodd y CHTh gyfraniad o'r gyllideb cronfeydd wrth gefn Ailhyfforddi Gyrwyr am beilot 12 mis o Eiriolwr Dioddefwyr Ffyrdd Annibynnol Dyfed-Powys penodedig, yn darparu cefnogaeth barhaus i ddioddefwyr traffig ffyrdd a'u teuluoedd.

Mae'r rôl wedi bod yn weithredol ers Ebrill 2023 ac y mae nawr yn dal llwyth achosion o deuluoedd o fewn Dyfed Powys sydd wedi dioddef profedigaeth drwy wrthdrawiadau traffig ffyrdd. Mae'r rôl yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i gynorthwyo teuluoedd i lywio drwy ganlyniadau digwyddiadau trawmatig.

Er bod gwybodaeth anecdotaidd yn eithriadol o gadarnhaol, mae'n rhy gynnar i ddarparu gwybodaeth fanwl i werthuso buddion y rôl. Cynigir felly ymestyn y peilot gwreiddiol am 12 mis pellach er mwyn galluogi ymgymryd â gwerthusiad mwy gwybodus o'r rôl.

Bydd y cytundeb grant yn cael ei ymestyn hyd at 31ain Mawrth 2025 gyda chyllideb flynyddol o £48,669. Bydd y cyllid yn dod o'r cronfeydd wrth gefn ailhyfforddi gyrwyr.

**Argymhelliad:**
Argymhellir bod y cytundeb grant i BRAKE yn cael ei ymestyn am gyfnod peilot 12 mis pellach, ar gost flynyddol o £48,669, hyd at 31ain Mawrth 2025.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 11.10.23**